



CYFARWYDDIAETH YR AMGYLCHEDD
GWASANAETHAU PROFEDIGAETH

RHEOLIADAU MYNWENTYDD 2022 / 2027



Mae'r rheoliadau hyn yn ychwanegol at Orchymyn Mynwentydd Awdurdodau Lleol 1977, neu unrhyw ailddeddfiad, addasiad neu ddiwygiad iddynt, ac fe'u gwneir yn unol â Rheoliad 3(1) ac o dan Adran 214 Deddf Llywodraeth Leol 1972.

CYNNWYS

Tudalen

1.0	Datganiad cenhadaeth	2
2.0	Amseroedd agor	3
3.0	Rheolau cyffredinol ynglŷn â thiroedd mynwentydd	4
	<i>Dyfnnder Beddi</i>	4
	<i>Dewis Bedd</i>	4
	<i>Ymwelwyr i Fynwentydd</i>	6
	<i>Teyrngedau Blodau (yn cynnwys Torchau Nadolig)</i> <i>Ailgylichu</i>	6
4.0	Rheolau sy'n gysylltiedig â beddi mewn ardaloedd lawntiog mewn mynwentydd	7
5.0	Rheolau sy'n gysylltiedig â beddi mewn ardaloedd nad ydynt yn rhai lawntiog mewn mynwentydd	8
6.0	Rheolau sy'n gysylltiedig â chofebau cyffredinol ar feddi (e.e. fasau, llechi, planhigion ac yn y blaen)	9
7.0	Rheolau sy'n gysylltiedig â chofebau cerrig beddi ac yn y blaen a gwaith coffáu <i>Cofebau Pren Dros Dro</i>	11 15
8.0	Ffioedd a Thaliadau Mynwentydd	16
9.0	Meinciau Coffa	17
10.0	Trefnu angladdau a threfniadau safle <i>Dogfennaeth</i> <i>Cyfnod Hysbysu</i> <i>Hawliau Claddu Neilltuedig</i> <i>Hawl i Darfu</i> <i>Beddi Brics / Wedi'u Blocio</i>	18 19 19 19 21 21
11.0	Gwasanaethau Angladd	23
12.0	Rheolau sy'n Gysylltiedig ag Ardaloedd Gweddillion wedi'u Hamlosgi	24
13.0	Rheolau sy'n Gysylltiedig â Chladdu mewn Coetiroedd	25
14.0	Anghydfodau ynglŷn â rheol mynwent neu'r dehongliad o reol mynwent	26
15.0	Addasiadau a diwygiadau i'r rheolau mynwentydd	27
16.0	Troseddau mewn mynwentydd	28
Atodiad 1	Canllawiau Maint Cofebau	29

1.0 DATGANIAD CENHADAETH

Mae Cyngor Sir y Fflint yn gweithredu ac yn rheoli pymtheg Mynwent ac wyth Mynwent Eglwys Gaeedig yn y Sir. Mae'r mynwentydd wedi'u lleoli ym Magillt, Bwcle, Cei Conna, Y Fflint (2), Maes-glas (2), Penarlâg (2), Yr Hob (2), Rhewl, Treuddyn a Kelsterton. Gweithredir y mynwentydd hyn yn bennaf er mwyn diwallu anghenion pobl Sir y Fflint.

Wrth reoli'r cyfleusterau hyn, cenhadaeth y Cyngor yw:

- sicrhau ei fod yn bodloni cyfreithiau claddu neu unrhyw gyfreithiau eraill a allai fod yn berthnasol mewn gweithrediad o'r fath
- trin y rhai sy'n cysylltu â ni gyda'r gofal, y trugaredd a'r ddealltwriaeth sy'n briodol wrth ddelio â phobl mewn profedigaeth
- sicrhau diogelwch ymwelwyr a gweithwyr ym mhob un o'n Mynwentydd
- atal unrhyw rwystrau i orchwylion cynnal a chadw synhwyrol ac arferol
- sicrhau bod cymeriad y mynwentydd, o ran gwaith cynnal a chadw / ymddangosiad ac yn y blaen, yn gyson â dymuniadau'r preswylwyr / defnyddwyr y mynwentydd
- sicrhau y gall teulu'r ymadawedig gladdu eu hanwyliaid a galaru am eu hanwyliaid mewn amgylchedd y mae'r mwyafrif o bobl yn credu sy'n briodol (amgylcheddau heddychlon a thawel sy'n gydnaws â myfyrio tawel)
- lleihau'r baich ariannol i dalwyr y Dreth Gyngor drwy geisio canfod ffyrdd i leihau costau cynnal a chadw'r tirlun yn gyson, heb leihau safonau garddwriaethol
- lleihau costau rhedeg mynwentydd, i'r graddau y bydd hynny'n ymarferol, i dalwyr y Dreth Gyngor drwy godi ffioedd a thaliadau amrywiol
- ceisio canfod ffyrdd o wella'r gwaith o reoli ein mynwentydd yn barhaus, gan ganolbwyntio'n benodol ar y broses gladdu

Richard Blake
Rheolwr Gwasanaethau Profedigaeth
Cyngor Sir y Fflint
2022

2.0 AMSEROEDD AGOR

Swyddfa'r Gwasanaethau Profedigaeth

2.1 Mae Swyddfa'r Gwasanaethau Profedigaeth wedi'i lleoli yn Alltami Depo, Ffordd Yr Wyddgrug, Alltami. CH7 6LG

Ffôn 01352 703360
 01352 703365

E-bost cemeteries@flintshire.gov.uk

2.2 Gellir gwneud ymholiadau ffôn neu ymweliadau i'r swyddfa rhwng 8.30 y bore a 5.00 y prynhawn o ddydd Llun i ddydd Gwener. Mae'r Swyddfa ar gau ar ddydd Sadwrn, dydd Sul, Gwyliau'r Banc a Gwyliau Cyhoeddus. Os byddwch yn dymuno cael cyfarfod personol gydag aelod o staff, ffoniwch y rhif(rhifau) uchod i drefnu apwyntiad cyfleus.

Mynwentydd

2.3 Mae'r pymtheg mynwent ar agor i'r cyhoedd bob diwrnod o'r flwyddyn, ond maent ar gau i ymwelwyr pan fydd hi'n nosi. Mae'r amseroedd agor fel a ganlyn:

1 ^{af} Ebrill i 30 ^{ain} Medi	8.00 am i 8.00 pm
1 ^{af} Hydref i 31 ^{ain} Mawrth	8.00 am i 4.00 pm

2.4 Bydd yr amseroedd cau dyddiol yn cael eu harddangos wrth fynedfeydd y mynwentydd a bydd ymwelwyr i'r mynwentydd yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn gadael cyn yr amseroedd cau sydd wedi'u harddangos. Bydd y giatiau'n cael eu cloi yn y mynwentydd canlynol, Penarlâg Rhif 1 a Rhif 2, Cei Conna, Kelsterton, Yr Hob, Bryn y Grog. Mae'n drosedd cyfreithiol i unrhyw bersonau anawdurdodedig fod mewn mynwent pan fydd ar gau i'r cyhoedd.

2.5 Mae gan y Cyngor yr hawl i gau'r mynwentydd neu gyfyngu ar fynediad pobl i'r mynwentydd ar unrhyw amser a heb rybudd.

2.6 Nid yw'r Cyngor yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am iechyd a diogelwch personau anawdurdodedig, cerbydau neu eiddo arall yn y mynwentydd pan fyddant wedi cau.

3.0 RHEOLAU CYFFREDINOL YNGLŶN Â THIROEDD MYNWENTYDD

- 3.1 Mae'r Rheoliadau hyn yn berthnasol i'r mynwentydd canlynol ac unrhyw estyniadau cyfagos neu fynwentydd ychwanegol y gellir eu hychwanegu'n ddiweddarach i'r rhestr isod.

Cedwir cynlluniau o'r mynwentydd hyn yn y Gwasanaethau Profedigaeth ac maent ar gael i'w gweld, yn ddi-dâl, yn ystod yr oriau agor a nodwyd ym mharagraff 2.2.

<u>ENW</u>	<u>FFORDD</u>	<u>TREF</u>
Bwcle	Elfed Drive	Bwcle
Bryn-y-Grog	Lôn Fagl	Yr Hob
Cei Conna	Ffordd Bryn	Cei Conna
Maes-glas	School Lane	Maes-glas
Maes-glas Rhif 2	School Lane	Maes-glas
Penarlâg Rhif 1	Cross Tree Lane	Penarlâg
Penarlâg Rhif 2	Ash Lane	Penarlâg
Treffynnon	Fron Park Road	Treffynnon
Yr Hob	Lôn Fagl	Yr Hob
London Road	London Road	Y Fflint
New Brighton	Ffordd New Brighton	Bagillt
Ffordd	Ffordd Llaneurgain	Y Fflint
Llaneurgain		
St Margaret's	Penrhewl	Mostyn
Treuddyn	Ffordd-y-Rhos	Treuddyn
Kelsterton	Lôn Kelsterton	Cei Conna

Dyfnnder Beddi

- 3.1 Bydd beddi'n cael eu cloddio i ddyfnnder o 4' 6", 6' 0" a *8' 0" (*ar gael mewn rhai mynwentydd yn unig), yn ddarostyngedig i amodau ac ystyriaethau lechyd a Diogelwch. Bydd Lleiniau Amlosgi yn cael eu cloddio i ddyfnnder o 2' 6". Yr Awdurdod fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ar ddyfnnder bedd. Ni fydd unrhyw gorff yn cael ei gladdu mewn bedd mewn unrhyw ffordd sy'n golygu y bydd unrhyw ran o'r arch lai na 3 troedfedd i lefel unrhyw dir sy'n ffinio â'r bedd (4' 6" claddedigaeth derfynol). Fodd bynnag, mewn amgylchiadau esgusodol, bydd gan yr Awdurdod yr hawl i amrywio rhywfaint ar yr amod hwn, ar yr amod bod nodweddion y tir yn addas a bod trefniadau selio priodol yn cael eu gwneud, hyd at orchudd sy'n o leiaf 2 droedfedd (3' 6" claddedigaeth derfynol).

Dewis Bedd

- 3.2 Bydd y broses o ddewis beth yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth yr Awdurdod, ond bydd dymuniadau'r ymgeisydd yn cael eu bodloni os bydd hynny'n ymarferol, yn rhesymol ac yn weithredol. Ni fydd yr Awdurdod yn gwarantu bod union leoliad yr holl feddau wedi'u rhifo yn gywir

Ymwelwyr i Fynwentydd

- 3.3** Dim ond drwy'r giataiu a ddarperir y dylid cael mynediad i bob mynwent. Ni chaniateir unrhyw fynediad preifat o eiddo, ardaloedd neu ffyrdd cyfagos. Gofynnir i ymwelwyr mynwentydd gadw at y ffyrdd a'r llwybrau a pheidio cerdded ar draws y beddi, na difrodi'r llwyni na'r blodau. Ni ddylai ymwelwyr ddefnyddio'r fynwent fel tramwyfa gyhoeddus na'r ffyrdd a'r llwybrau er mwyn cludo nwyddau, parseli neu ddeunyddiau na fwriadwyd i'w defnyddio yn y fynwent.
- 3.4** Mae'n ***rhaid*** cadw cŵn ar dennyn bob amser ac ni ddylid gadael iddynt redeg yn rhydd o fewn y mynwentydd, er na fydd y rheol hon yn berthnasol ar gyfer cŵn tywys.
- 3.5** Mae'n rhaid i bramiau fod yng ngofal oedolyn cyfrifol.
- 3.6** Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i eithrio plant nad ydynt yng ngofal person cyfrifol o'r mynwentydd.
- 3.7** Mae'n rhaid i draffig cerbydol gydymffurfio â phob arwydd / cyfarwyddyd traffig perthnasol yn cynnwys y cyfyngiad cyflymder o 5 mya, arwyddion cyfeiriad llif traffig a chyfarwyddiadau parcio. Ni chaniateir i gerbydau barcio na throi ar ardaloedd gwelltog.
- 3.8** Ni chaniateir cerbydau, nad oes gan eu deiliaid unrhyw fusnes dilys yn y mynwentydd, ar diroedd y mynwentydd.
- 3.9** Mae'n rhaid i yrwyr cerbydau fod yn ymwybodol o gerddwyr, a rhoi ystyriaeth ddigonol i gerddwyr bob amser, gan leihau eu cyflymder yn unol â hynny.
- 3.10** Ni chaniateir i unrhyw berson ganfasio na cheisio gorchmynion o fewn y mynwentydd. Bydd unrhyw un sy'n torri'r rheol hon yn rhoi eu hunain mewn perygl o wynebu pa bynnag gamau gweithredu y bydd y Cyngor yn credu sydd eu hangen er mwyn atal unrhyw achosion pellach o dorri'r rheol hon, yn cynnwys gwaharddiad.
- 3.11** Mae'n rhaid i bob math o gofebau a'u lleoliad gydymffurfio â rheolau'r fynwent. Yn sicr, ni ddylid gosod unrhyw gofebau ar neu o amgylch y coed nac yn gyffredinol o fewn tiroedd y mynwentydd.
- 3.12** Ni chaniateir i alcohol gael ei yfed ar diroedd y mynwentydd, neu ei adael ar feddau fel cofeb. Bydd unrhyw ddarganfyddiad yn cael ei symud a'i waredu yn unol â hynny.
- 3.13** Ni chaniateir i unrhyw chwaraeon na gemau gael eu chwarae yn y mynwentydd, yn cynnwys dringo na gemau pêl.
- 3.14** Mae'n rhaid i ymwelwyr drin amgylchedd y fynwent a phobl eraill yn y fynwent gyda pharch, ac ni ddylent weiddi, rhegi nac ymddwyn mewn dull sarhaus yn gyffredinol.

- 3.15** Ni ddylai unrhyw berson ddefnyddio ymddygiad bygythiol neu ymosodol tuag at staff y fynwent, ac ni ddylai unrhyw berson atal staff y fynwent rhag cyflawni eu dyletswyddau.

Teyrngedau Blodau

- 3.16** Bydd pob teyrnged flodau fawr a roddir ar fedd yn dilyn claddedigaeth yn cael eu symud a'u gwaredu, 14 diwrnod ar ôl yr angladd, os ydynt yn cael eu gadael i ddirywio.

Bydd y gwaith o symud a gwaredu Torchau Nadolig, o bob ardal (ac eithrio'r rhai sydd wedi'u gosod ar Gerrig Beddi) yn dechrau yn ystod wythnos gyntaf / ail wythnos mis Chwefror bob blwyddyn.

Ailgylchu

- 3.17** Anogir ymwelwyr i bob Mynwent yn Sir y Fflint ailgylchu unrhyw ddeunyddiau megis poteli plastig, torchau neu flodau marw ac yn y blaen drwy eu gosod yn y biniau priodol a ddarperir. Gofynnir i ymwelwyr sicrhau hefyd eu bod ond yn defnyddio'r swm angenrheidiol o ddŵr tra byddant yn y Fynwent a bod unrhyw dapiau wedi'u troi i ffwrdd yn gywir ar ôl cael eu defnyddio. Bydd y camau hyn yn helpu'r Awdurdod i gyflawni ei ymrwymiad i ddarparu Sir y Fflint sy'n fwy glân a gwyrdd.

4.0 RHEOLAU SY'N GYSYLLTIEDIG Â BEDDI MEWN ARDALOEDD LAWNTIOG MEWN MYNWENTYDD

- 4.1** O fewn yr ardaloedd lawntiog yn y Mynwentydd, neu ar feddi lawntiog, caniateir un fâs neu gofeb symudadwy fesul bedd. Bydd gweddill gofod y bedd a'r ardal amgylchynol yn lawntiog ac felly ni ddylai bod unrhyw rwystrau. Ni chaniateir beddi wedi'u pentyrru.
- 4.2** Ychydig iawn o gofebau y dylid eu gosod ar feddi rhwng claddedigaeth a thywarchu / hadu'r bedd, er mwyn gallu ychwanegu'r pridd sydd wedi setlo yn rheolaidd. Bydd pob eitem anawdurdodedig yn cael eu tynnu oddi ar feddi yn ystod y cyfnod hwn a chyn tywarchu.
- 4.3** Cyn gynted ag y bydd yn gyfleus, gan ganiatáu i'r tir setlo ar ôl claddedigaeth (a allai gymryd hyd at chwe mis), bydd y Cyngor yn gosod tywarch / hadau dros y bedd cyfan.
- 4.4** Ni ddylid gosod ymylon o unrhyw fath o amgylch gofod bedd o dan unrhyw amgylchiadau, ac ni ddylid gosod unrhyw eitemau rhydd megis graean neu lechi ac yn y blaen ar fedd. Dim ond Saer Maen cydnabyddedig sy'n gallu gosod ymylfeini i amgáu beddi, a hynny i Safon NAMM, ar ôl cyflwyno'r cais priodol a chyhoeddi caniatâd ffurfiol. Bydd y Cyngor yn symud unrhyw ymylon ac unrhyw eitemau rhydd sydd wedi'u gosod ar fedd heb unrhyw rybudd.
- 4.5** Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i osod deunydd sydd wedi'i gloddio o fedd cyfagos (p'un a yw wedi'i gynnwys mewn blwch pridd ai peidio), symud cerrig beddi ac, mewn amgylchiadau eithriadol, symud deunydd ac offer, yn cynnwys cloddwyr mecanyddol ac yn y blaen dros feddi. Fodd bynnag, wrth ymgymryd â gwaith o'r fath, bydd y Cyngor yn cymryd gofal bob amser ac yn cyflawni'r gwaith gyda'r parch a ddisgwylir mewn mynwent. Yn ogystal, bydd y Cyngor yn unioni unrhyw ddifrod a allai ddigwydd yn ystod gwaith o'r fath. (Fel arfer, dim ond hyd at ddwy gladdedigaeth bellach a wneir mewn bedd cyfagos).
- 4.6** Dylid nodi bod y mwyafrif helaeth o feddi hyd llawn yn y mynwentydd (yn hytrach na beddi gweddillion wedi'u hamlosgi) yn gallu dal hyd at chwe chaged o weddillion wedi'u hamlosgi yn ogystal â'u nifer llawn o gladdedigaethau.
- 4.7** Ni chaniateir i blanhigion, llwyni na llystyfiant eraill gael eu plannu o fewn ardal y bedd.
- 4.8** Mewn rhai amgylchiadau dim ond os ydynt wedi'u lleoli mewn Adran Plant yn y Fynwent y caniateir canghennau ar feddau pwrpasol i Blant, a dim ond gyda chaniatâd y Rheolwr Gwasanaethau Profedigaeth.

5.0 RHEOLAU SY'N GYSYLLTIEDIG Â BEDDI MEWN ARDALOEDD NAD YDYNT YN RHAI LAWNTIOG MEWN MYNWENTYDD

- 5.1** Ar ardal nad yw'n lawntiog, mae'r ardal y gellir ei defnyddio ar neu o amgylch y bedd ar gyfer cofebau wedi'i chyfyngu i'r ardal sydd wedi'i hamgáu gan yr ymylfeini. Bydd yr ardal o amgylch y bedd yn laswellt heb unrhyw rwystrau. Ni chaniateir beddi wedi'u pentyrru.
- 5.2** Ychydig iawn o gofebau y dylid eu gosod ar feddi am tua chwe mis yn dilyn claddedigaeth, er mwyn gallu ychwanegu'r pridd sydd wedi setlo yn rheolaidd. Bydd pob eitem anawdurdodedig yn cael eu tynnu oddi ar feddi yn ystod y cyfnod hwn a chyn tywarchu.
- 5.3** Mewn achos pan fydd Uwch Swyddog y Gwasanaethau Profedigaeth o'r farn nad oes unrhyw un yn gofalu am fedd ag ymylfeini a bod y gladdedigaeth ddiwethaf wedi digwydd o leiaf 50 mlynedd yn ôl, gall y swyddog drefnu i unrhyw ymylfeini heb arysgrif gael eu symud, gwneud unrhyw gofeb carreg fedd a oedd wedi'i gosod ar yr ymylon yn ddiogel a gosod tywyrch ar y bedd.
- 5.4** Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i osod deunydd sydd wedi'i gloddio o fedd cyfagos (p'un a yw wedi'i gynnwys mewn blwch pridd ai peidio), symud cerrig beddi ac, mewn amgylchiadau eithriadol, symud deunydd ac offer, yn cynnwys cloddwyr mecanyddol ac yn y blaen dros feddi. Fodd bynnag, wrth ymgymryd â gwaith o'r fath, bydd y Cyngor yn cymryd gofal bob amser ac yn cyflawni'r gwaith gyda'r parch a ddisgwylir mewn mynwent. Yn ogystal, bydd y Cyngor yn unioni unrhyw ddifrod a allai ddigwydd yn ystod gwaith o'r fath. (Fel arfer, dim ond hyd at ddwy gladdedigaeth bellach a wneir mewn bedd cyfagos).
- 5.5** Dylid nodi bod y mwyafrif helaeth o feddi hyd llawn yn y mynwentydd (yn hytrach na beddi gweddillion wedi'u hamlosgi) yn gallu dal hyd at wyth casged o weddillion wedi'u hamlosgi yn ogystal â'u nifer llawn o gladdedigaethau.

6.0 RHEOLAU SY’N GYSYLLTIEDIG Â CHOFEBAU CYFFREDINOL AR FEDDI (E.E. FASAU, LLECHI, PLANHIGION AC YN Y BLAEN).

- 6.1** Gall meintiau’r cofebau a ganiateir ar feddi llawn a lleiniau gweddillion wedi’u hamlosgi amrywio o Fynwent i Fynwent. Ceir rhestr lawn o’r meintiau mwyaf a ganiateir yn Atodiad 1. Waeth beth yw maint neu leoliad bedd, ni ddylid gosod unrhyw gofeb / carreg fedd mewn unrhyw Fynwent heb gyflwyno cais i Swyddfa’r Gwasanaethau Profedigaeth. Ni ddylid gwneud unrhyw waith i godi cofeb nes y bydd Caniatâd ffurfiol wedi’i gyhoeddi gan swyddfa’r Gwasanaethau Profedigaeth ac wedi’i dderbyn gan y Saer Maen, ac nid cyn y dyddiad a ganiateir a nodwyd ar y caniatâd.
- 6.2** Mae’n rhaid i Enw’r Saer Maen a Rhif y Bedd gael eu harysgrifennu ar gefn y gofeb.
- 6.3** Ni chaniateir yn benodol i lwyni gael eu plannu o fewn neu o amgylch ardal y bedd ac efallai y bydd y Cyngor yn gofyn i Berchennog Cofrestredig y Bedd symud unrhyw blanhigion neu lwyni, na ddylid bod wedi’u plannu ym marn Uwch Swyddog y Gwasanaethau Profedigaeth neu os ydynt yn amhrydferth, wedi tyfu’n wyllt neu’n beryglus o blannu blaenorol. Pan na fydd Perchennog Cofrestredig y Bedd yn cymryd y camau priodol ar ôl derbyn cais i wneud hynny, mae gan y Cyngor yr hawl i Uwch Swyddog y Gwasanaethau Profedigaeth i gymryd camau o’r fath yn dilyn methiant y Perchennog i weithredu.
- 6.4** Er mwyn diogelu cymeriad y mynwentydd ac osgoi atyniadau a allai annog ymwelwyr digroeso yn ystod y nos, fel egwyddor gyffredinol, bydd nifer y goleuadau solar yn cael eu cyfyngu i un neu ddau o oleuadau ar unrhyw fedd. Dylid sicrhau bod y goleuadau hyn ond yn rhyddhau golau gwyn, ysgafn a dylai’r goleuadau solar fod yn oleuadau arddull llusern yn ddelfrydol. Dylid sicrhau nad yw’r goleuadau hyn, yn cynnwys eu stand, yn uwch na’r uchder a ganiateir ar gyfer carreg fedd, ac ni ddylai mathau eraill o oleuadau fod yn fwy na 30cm (12 modfedd) o uchder. (Nodwch reol 6.7 isod, sy’n gysylltiedig â phob mathau o eitemau, ond sy’n eithrio’n benodol unrhyw oleuadau nad ydynt yn cael eu pweru gan ynni solar).
- 6.5** Caniateir cofebau ar ffurf clychau gwynt / melinau gwynt, ond ni ddylent fod yn uwch na 30cm (12 modfedd), ac yn nhermau maint a nifer ar unrhyw un bedd unigol, ni ddylai maint cofebau o’r fath amharu ar bartion angladd nac ymwelwyr eraill i’r mynwentydd.
- 6.6** Er mwyn sicrhau bod gwaith cynnal a chadw o safon briodol yn cael ei gyflawni’n effeithlon ac er mwyn rhoi ystyriaeth ddigonol i ddiogelwch gweithwyr cynnal a chadw’r tiroedd, bydd rhai eitemau penodol yn cael eu gwahardd ar yr ardaloedd lawntiog. Mae’r eitemau hyn yn cynnwys cerrig ffiniol, ymylon concriid, metel (yn cynnwys cadwyni), pren, plastigau ac yn y blaen a graean (o unrhyw ddeunydd).

- 6.7** Ac eithrio'r goleuadau solar a chlychau gwynt / melinau gwynt y cyfeirir atynt yn rheolau 6.4 a 6.5 uchod, mae eitemau sy'n cael eu pweru gan y gwynt, yr haul, batris neu unrhyw ffordd arall er mwyn rhyddhau golau neu sain wedi'u gwahardd yn benodol o'r mynwentydd oherwydd ystyrir bod eitemau o'r fath (neu ormod o eitemau o'r fath) yn cael effaith niweidiol ar gymeriad y mynwentydd neu ar y tawelwch a ddisgwylir gan bartïon angladd ac ymwelwyr mewn profedigaeth.
- 6.8** Ni chaniateir unrhyw ddeunyddiau neu eitemau coffáu sydd, ym marn Uwch Swyddog y Gwasanaethau Profedigaeth, yn cyflwyno risg i iechyd a diogelwch gweithwyr mynwentydd neu ymwelwyr. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, eitemau bregus o wydr neu lusernau gyda phwynt ar eu pennau. Gall y Cyngor symud unrhyw ddeunyddiau neu eitemau o'r fath heb rybudd ymlaen llaw.
- 6.9** Mae'n rhaid i berchnogion ofalu bod cofebau'n cael eu cadw mewn cyflwr da. Anfonir hysbysiad i'r perchennog cofrestredig os bydd angen gwneud unrhyw waith atgyweirio, ac un mis ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad hwn, gall y Cyngor wneud y gwaith atgyweirio'n ddirybudd am gost i'w thalu gan y perchennog.
- 6.10** Bydd unrhyw eitem goffáu yn cael eu gosod yn y mynwentydd ar risg y perchennog. Nid yw'r Cyngor yn derbyn unrhyw gyfrifoldebau am unrhyw achos o ladrata, nac unrhyw fath o ddifrod i unrhyw gofeb ac am y rheswm hwn, argymhellir nad yw unrhyw eitemau sydd o unrhyw werth sentimental neu ariannol sylweddol yn cael eu gadael ar feddi.
- 6.11** Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i symud unrhyw gofeb, neu unrhyw ran o gofeb, o fedd neu feddi cyfagos pan fydd angen gwneud hynny er mwyn cyflawni gwaith claddu mewn unrhyw fedd. Bydd y Cyngor yn ailosod unrhyw gofeb o'r fath, neu ran o gofeb, sy'n cael ei symud, ac yn gwneud iawn am unrhyw ddifrod a allai ddigwydd wrth symud cofeb.
- 6.12** Ni ellir gosod unrhyw gofebau o unrhyw fath ar unrhyw fedd pan na fydd gweithred fedd wedi'i phwrcasu (e.e. bedd cyhoeddus neu gyffredin). Bydd unrhyw fath o gofeb a ganfyddir ar feddi o'r fath yn cael eu symud yn ddirybudd.
- 6.13** Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i gael gwared ar unrhyw gofeb, neu unrhyw ran ohoni, os dywedir bod y gofeb yn tresmasu ar ofod bedd cyfagos, neu'r lle rhydd rhwng beddau, heb unrhyw rybudd ymlaen llaw

7.0 RHEOLAU SY’N GYSYLLTIEDIG Â CHOFEBAU CERRIG BEDDI AC YN Y BLAEN A GWAITH COFFÁU

7.1 Yn y Rheolau hyn:

Mae **BRAMM** yn golygu Cofrestr Prydain o Seiri Maen Cofrestredig

Mae **Gosodwr Trwyddedig** yn golygu gosodwr sydd wedi’i achredu gan BRAAM

Mae **NAMM** yn golygu Cymdeithas Genedlaethol Seiri Maen

Mae **Cod Ymarfer Gwaith NAMM** yn golygu Cod Ymarfer Gwaith NAMM sydd mewn grym ar y pryd

Mae **Safonau NAMM** yn golygu gwaith sy’n cydymffurfio â Chod Ymarfer Gwaith NAMM

Mae **Safonau Prydeinig** yn golygu BS 8415 – Cofebau o fewn tiroedd claddu a safleoedd coffa - Manyleb

Mae **gosod** yn golygu’r holl waith sylfaenol ond nid yw’n cynnwys pethau fel glanhau cofebau, tynnu cofebau neu lythrennau cofebau a bydd **gwaith gosod** yn cael ei ddehongli yn unol â hynny

Mae **gwaith coffáu** yn golygu unrhyw waith sy’n gysylltiedig â chofebau p’un a yw’n cynnwys gosod ai peidio

Dimensiynau – mae mesuriadau metrig manwl gywir yn cael eu dyfynnu yn y rheolau hyn, yn ogystal â’u mesuriadau imperial bras.

7.2 Mae’r Adran hon o’r rheolau mynwentydd yn datgan pwy sy’n gallu gwneud gwaith coffa ym Mynwentydd y Cyngor, yn ogystal â safon yr ansawdd a fydd yn berthnasol i waith o’r fath. Nid yw’r adran hon o’r rheolau mynwentydd yn berthnasol i’r Cyngor nac i gyflogeion y Cyngor.

7.3 Bydd pob gwaith coffa yn cydymffurfio â Chod Ymarfer Gwaith NAMM, ar yr amod:

- a) Pan na fydd Gwaith Coffa wedi’u cynnwys o fewn Cod Ymarfer Gwaith NAMM (neu os nad yw’n glir a yw Cod Ymarfer Gwaith NAMM yn berthnasol) Uwch Swyddog y Gwasanaethau Profedigaeth fydd yn penderfynu ar lefel y safon i’w chymhwyso;
- b) Pan fydd y rheolau mynwentydd hyn yn berthnasol i safon neu ofyniad penodol, bydd y rheolau mynwentydd hyn yn rhagori ar God Ymarfer Gwaith NAMM, ar gyfer safon neu ofyniad o’r fath.
- c) Mae’r Cyngor yn cadw’r hawl i ddefnyddio ei ddisgresiwn wrth gymhwyso cynllun BRAMM / Cod Ymarfer Gwaith NAMM mewn achosion penodol, ar ôl cyflwyno cais ysgrifenedig i Uwch Swyddog y Gwasanaethau Profedigaeth.

7.4 Dylid gosod cerrig beddi ym mhen uchaf y bedd, yn unol â chofebau cyfagos neu’n unol â chyfarwyddiadau Uwch Swyddog y Gwasanaethau Profedigaeth.

7.5 Dylid gosod pob cofeb (p’un a yw’n newydd neu’n ail osod cofeb bresennol), yn cynnwys cofebau arddull ymylon, gan gydymffurfio â’r Safon Brydeinig a Chod Ymarfer Gwaith NAMM.

- 7.6** Mae'n rhaid cysylltu cerrig beddi â sylfaen briodol, yn unol â'r Safon Brydeinig a Chod Ymarfer Gwaith NAMM er mwyn sicrhau eu bod yn sefydlog ac er mwyn osgoi risg i iechyd a diogelwch personau sy'n cael eu cyflogi mewn mynwentydd neu bersonau sy'n ymweld â mynwentydd.
- 7.7** Bydd seiliau ar gyfer beddi maint llawn yn cael eu gwneud o goncrïd wedi'i atgyfnerthu neu ddeunydd arall addas sy'n cydymffurfio â'r Safon Brydeinig a Chod Ymarfer Gwaith NAMM ac sydd wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor.
- 7.8** Dim ond busnesau sydd ag achrediad BRAMM / NAMM sy'n gallu gwneud gwaith coffa ym mynwentydd y Cyngor. Mae'n rhaid i fusnesau ag achrediad BRAMM sy'n gwneud gwaith coffa ym mynwentydd y Cyngor gyflogi (yn cynnwys ar sail is-gontractio) Gosodwyr Trwyddedig i gyflawni gwaith gosod, ar yr amod yr ystyrir bod y rheol hon yn cael ei dilyn os bydd pob 'tîm' sy'n cyflawni gwaith gosod yn cynnwys o leiaf un Gosodwr Trwyddedig. Er enghraifft, os bydd gan fusnes ag achrediad BRAMM dri thîm sy'n gweithio ar dair cofeb, mae'n ofyniad bod o leiaf tri Gosodwr Trwyddedig (un yn gweithio / goruchwyllo ym mhob cofeb). Ni ddylid gwneud unrhyw waith gosod mewn mynwentydd ar unrhyw gofeb heb sicrhau bod Gosodwr Trwyddedig yn bresennol.
- 7.9** Ni fydd yn ofynnol i fusnesau ag achrediad BRAMM sy'n gwneud gwaith coffa ym mynwentydd y Cyngor nad yw'n cynnwys gwaith gosod, ddefnyddio Gosodwyr Trwyddedig ar gyfer gwaith o'r fath.
- 7.10** Ni ddylid gwneud unrhyw waith coffa oni fydd cais wedi'i wneud i'r Cyngor am drwydded a bod y drwydded honno wedi'i rhoi. Mae'n rhaid sicrhau bod trwyddedau o'r fath ar gael ar y safle i'w harchwilio gan unrhyw Swyddog o'r Gwasanaethau Profedigaeth neu asiantwyr sy'n gweithredu ar ran y Cyngor wrth i'r gwaith gael ei wneud. Ni ddylid codi unrhyw gofeb am o leiaf 6 mis yn dilyn claddedigaeth er mwyn i'r tir allu setlo, oni fydd yn gladdedigaeth gweddillion wedi'u hamlosgi.
- 7.11** Ni ddylid cludo unrhyw gofebau i mewn nac allan o'r mynwentydd heb sicrhau caniatâd ymlaen llaw gan y Cyngor.
- 7.12** Mae'n rhaid i gerrig beddi gydymffurfio â'r cynlluniau cyffredinol sydd wedi'u cymeradwyo gan y Cyngor (mae'r dimensiynau ar gael yn Atodiad 1).
- 7.13** Mae'n rhaid i'r deunyddiau a ddefnyddir ar gyfer adeiladu cofebau fod o garreg naturiol a chadarn, marmor, gwenithfaen neu ddeunyddiau eraill tebyg. Bydd yr Awdurdod yn gwrthod unrhyw gofeb na fydd yn gallu goresgyn amlygiad parhaus i'r tywydd, ac mae unrhyw gofeb sydd wedi'i gwneud o'r deunyddiau canlynol, yn bennaf: carreg artiffisial, terracotta, llestri, porslen, plastig neu unrhyw ddeunydd arall sydd, ym

marn Uwch Swyddog y Gwasanaethau Profedigaeth, yn anaddas neu'n anghydnaws â'r ardal o'i hamgylch.

- 7.14** Caniateir cofebion pren (heblaw cofebion pren dros dro) yn dilyn cais ysgrifenedig i'r Cyngor. Rhaid i unrhyw Gofeb Pren gydymffurfio â'r canllawiau maint ar gyfer cofebion traddodiadol fel y nodir yn Atodiad 1
- 7.15** Nid yw'r Cyngor yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb dros unrhyw ddifrod a achosir i gofeb oni fydd wedi'i achosi drwy weithred neu ddiffyg ei weithwyr neu gontractwyr sy'n gweithredu ar ei ran.
- 7.16** Mae'n rhaid cyflwyno manylion a darluniau o unrhyw gofeb arfaethedig, yn cynnwys manylion y sylfaen a / neu'r dull o'i gosod, a'r arysgrif a roddir arni, i'r Cyngor eu cymeradwyo, gan ddefnyddio'r ffurflen a ragnodir (sydd ar gael o swyddfa'r Gwasanaethau Profedigaeth). Mae'n rhaid i Berchennog Cofrestredig y Bedd sydd â Hawl Claddu Neilltuedig mewn bedd, lofnodi'r ffurflen. Ni chaniateir i gofeb gael ei gosod heb y caniatâd hwn gan y perchennog.
- 7.17** Pan fydd Uwch Swyddog y Gwasanaethau Profedigaeth o'r farn nad yw'r cofebau bellach yn cael eu cynnal a'u cadw mewn cyflwr da a phriodol, gall y Cyngor eu symud neu eu gosod yn wastad.
- 7.18** Os bydd y Cyngor o'r farn bod unrhyw gofebau yn ansefydlog, ac felly'n cyflwyno risg i iechyd a diogelwch personau sy'n cael eu cyflogi yn y Fynwent neu bersonau sy'n ymweld â'r Fynwent, bydd Uwch Swyddog y Gwasanaethau Profedigaeth yn cymryd camau priodol, yn unol â'r Aseidiadau Risg a'r canllawiau Rheoli Cofebau perthnasol
- 7.19** Os bydd unrhyw gofeb neu unrhyw waith arall i'w chodi neu ei wneud yn mynd yn groes i'r rheolau hyn, gall y Cyngor symud y gofeb neu'r gwaith unrhyw amser, yn ddirybudd, ar gost i'r person sy'n gyfrifol am hyn a bydd y Cyngor yn cymryd camau gorfodi addas yn erbyn y rhai sy'n torri'r rheolau hyn.
- 7.20** Mae'n rhaid trosglwyddo pob cofeb i'r Fynwent, ei chodi a'i thynnu, ar gost i Berchennog Cofrestredig y Bedd sydd â'r hawl claddu neilltuedig, ac mae'n rhaid i bob cofeb gael arysgrif arni sy'n nodi rhif y bedd neu gladdgell y bydd yn cael ei gosod arno ac enw'r Saer Maen.
- 7.21** Ni chaniateir i unrhyw waith naddu carreg gael ei wneud o fewn muriau'r Fynwent nac ar ffyrdd dynesu'r Fynwent ac mae'n rhaid trosglwyddo unrhyw ddeunyddiau ar gyfer cerrig coffa a chofebau i'r Fynwent mewn ffordd, o dan gyfarwyddyd Uwch Swyddog y Gwasanaethau Profedigaeth, yn osgoi torri'r ffyrdd, llwybrau neu ymylon. Dylid defnyddio matiau, planciau, estyll neu ganfas, yn unol ag unrhyw gyfarwyddiadau, er mwyn diogelu'r glaswellt neu'r ffyrdd rhag cael eu difrodi gan waith o'r fath.

- 7.22** Ni chaniateir i gofebau gael eu gosod ar ddydd Sadwrn, Dydd Sul nac ar Wyliau Cyhoeddus. Gofynnir i godwyr neu seiri nodi na chaniateir i unrhyw waith cysylltiedig gael ei wneud i'r cofebau hyn ar ôl oriau swyddfa arferol y mynwentydd, heb ganiatâd ysgrifenedig Uwch Swyddog y Gwasanaethau Profedigaeth.
- 7.23** Mae'n rhaid i unrhyw waith o bob disgrifiad gael ei wneud yn barhaus a'i gwblhau heb unrhyw oedi. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i gofebau sydd angen eu hailosod.
- 7.24** Y saer maen perthnasol sy'n gyfrifol am ailosod bedd ar ôl gosod neu ailosod cofeb neu unrhyw fath arall o waith coffa, a bydd yn rhaid iddynt sicrhau bod y bedd a'r ardal o amgylch y bedd yn cael eu gadael mewn cyflwr glân a thaclus er boddhad Uwch Swyddog y Gwasanaethau Profedigaeth.
- 7.25** Bydd pob cofeb, neu ddeunyddiau ar gyfer gosod cofeb, sy'n cael eu trosglwyddo i'r fynwent, neu a ganiateir iddynt gael eu codi yn y fynwent, yn cael ei throsglwyddo, codi, cynnal a'i thynnu ar risg y perchennog ac ni fydd y Cyngor yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw ddifrod neu dorri, neu golli unrhyw ddeunyddiau o'r fath sut bynnag y'i hachosir.
- 7.26** Bydd y cwmni saer maen sy'n codi cofeb (p'un a yw'n un newydd neu'n ailosod cofeb bresennol) yn trefnu i enw'r cwmni gael ei ysgythru mewn llythrennau nad ydynt yn llai nac 20mm (3/4 modfedd) ar ochr dde cefn cofeb o'r fath a 50mm (2 fodfedd) uwchlaw lefel y ddaear cyn ei chodi yn y fynwent. Yn ogystal, dylai'r marciau hyn gynnwys seren yn cadarnhau bod y garreg fedd wedi'i gosod i safonau cyfredol NAMM.
- 7.27** Bydd y cwmni saer maen sy'n codi cofeb (p'un a yw'n un newydd neu'n ailosod cofeb bresennol) yn trefnu i enw'r cwmni gael ei ysgythru mewn llythrennau nad ydynt yn fwy nac 20 mm (3/4 modfedd) ar waelod y gofeb.
- 7.28** Bydd unrhyw gyflogai neu is-contractwr saer maen sy'n torri unrhyw reol berthnasol y fynwent yn atebol i wynebu unrhyw gamau sydd eu hangen ym marn y Cyngor, i atal achosion pellach o dorri rheolau, yn cynnwys gwaharddiad.
- 7.29** Caniateir cofebau arddull ymylon yn y Mynwentydd canlynol yn unig: Cei Conna, Rhewl, Treffynnon a Bwcle.
- 7.30** Mae'n rhaid sicrhau bod unrhyw gofeb arddull ymylon newydd yn cydymffurfio â Rheolau cyfredol y Fynwent, h.y. uchafswm uchder a lled. Ni ddylai hyd cyffredinol y gofeb fod yn fwy na 1.98 metr (6 troedfedd 6 modfedd) ac mae'n RHAID gosod un darn unigol o sylfaen i'r gofeb yn unol â Chod NAMM. Bydd sylfeini mewn rhannau ond yn cael eu caniatáu mewn manau beddi lluosog.

- 7.31** Gall y Swyddog Awdurdodedig wrthod caniatáu i unrhyw waith ddechrau, neu orchymyn bod gwaith yn cael ei atal os bydd posibilrwydd y bydd y ffyrdd, neu'r glaswellt yn y fynwent yn cael eu difrodi oherwydd tywydd garw.
- 7.32** Gall safle pob cofeb fod yn ddarostyngedig i orchmynion a rheoliadau'r Awdurdod.

Cofebau Pren Dros Dro

- 7.33** Am gyfnod nad yw'n fwy na 5 mlynedd yn dilyn claddedigaeth, caniateir i gofeb neu groes bren dros dro gael eu gosod ar frig bedd neu'n ddarostyngedig i'r fanyleb ganlynol:-
- (a) Ni fydd y dimensiynau cyffredinol yn fwy na 3 troedfedd (0.91 metr) mewn uchder a 2 droedfedd 9 modfedd (0.84 metr) mewn lled. Dylai'r gofeb neu'r groes fod wedi'u creu o bren caled o ansawdd da ac ni ddylai unrhyw blât a ddefnyddir ar gyfer arysgrif fod yn fwy na 4 modfedd (100mm) mewn dyfnder.
 - (b) Dylid gosod y gofeb yn y ddaear ar frig y bedd mewn ffordd sy'n ei gwneud yn anodd ei symud yn hawdd, e.e. wedi'i osod mewn concrid.
 - (c) Mae'n rhaid sicrhau cymeradwyaeth ar gyfer codi cofebau pren dros dro yn unol â Rheoliad 7.10 (Rheolau sy'n Gysylltiedig â Cherrig Beddi Ac Ati a Gwaith Coffa).

Dylid sicrhau nad yw'r Rheoliad hwn yn berthnasol i unrhyw fedd sydd wedi'i leoli mewn ardal wedi'i neilltuo gan yr Awdurdod ar gyfer claddu gweddillion wedi'u hamlosgi, lle defnyddir slabiau coffa. Bydd ardaloedd o'r fath yn cael eu cynnal fel lawntiau yn unol â Rheoliadau blaenorol.

- 7.34** Bydd yr Awdurdod yn caniatáu i bob Cofeb fod yn 15mm o uchder.
- 7.35** **Rhaid** i'r Saer Maen symud yr holl ddeunydd tebyg i rwbel, gan gynnwys gwaelod cofebion, ar ôl cwblhau'r holl waith. Ni ddylid gadael y deunyddiau hyn yn y Fynwent mewn unrhyw leoliad o dan unrhyw amgylchiadau

8.0 FFFIOEDD A THALIADAU MYNWENTYDD

8.1 Mae manylion Ffioedd a Thaliadau Mynwentydd Cyngor Sir y Fflint ar gael yn Swyddfa'r Gwasanaethau Profedigaeth, ar wefan Cyngor Sir y Fflint, hysbysfyddau Mynwentydd a byddant yn cael eu dosbarthu i Drefnwyr Angladdau a Seiri Maen bob blwyddyn. Dylid talu ffioedd claddu i Uwch Swyddog y Gwasanaethau Profedigaeth pan roddir hysbysiad o'r farwolaeth. Pan fydd trefnwr angladdau yn defnyddio mynwentydd yr Awdurdod yn rheolaidd, trefnir anfonebau'n fisol ac mae'n rhaid talu Adran Gyllid y Sir. Mae'n rhaid talu ffioedd am gerrig beddi a chofebau gyda'r cais priodol, oni fydd y Saer Maen yn defnyddio mynwentydd yr Awdurdod yn rheolaidd, lle bydd system o anfonebu'n fisol ac mae'n rhaid talu Adran Gyllid y Sir. Mae'n rhaid talu am Lain sydd wedi'i Chadw ar gyfer Bedd, Mainc Goffa, Plac Coffa ac unrhyw ffioedd eraill nad ydynt wedi'u rhestru gyda'r cais priodol.

8.2 Tynnir sylw at y taliadau arbennig canlynol:

(a) ***Ffioedd ar gyfer Pobl nad ydynt yn Breswylwyr***

Pan na fydd yn bosibl cadarnhau drwy gyfeirio at y Gofrestr o Etholwyr bod yr ymadawedig (neu yn achos plentyn - rhiant/rhieni'r ymadawedig) wedi byw am dair blynedd cyn y farwolaeth mewn cymuned lle bydd yr Awdurdod yn talu am y costau claddu, yna codir y ffi sy'n briodol ar gyfer pobl nad ydynt yn breswylwyr. Bydd hyn naill ai'n gysylltiedig â pherson sy'n symud i mewn neu allan o'r Sir.

(b) ***Ffioedd i dalu am Waith Gweinyddol / Gwaith Ychwanegol***

Bydd Uwch Swyddog y Gwasanaethau Profedigaeth yn codi tâl ychwanegol o 33% o'r gost claddu am y rhesymau canlynol :-

- 1) Unrhyw newidiadau a wneir i fanylion Claddedigaeth, ar ôl i Swyddfa'r Gwasanaethau Profedigaeth dderbyn cadarnhad ysgrifenedig neu ffacs o'r manylion.
- 2) Unrhyw waith ychwanegol angenrheidiol, nad oedd wedi'i nodi'n glir ar y Ffurflen Gladdedigaeth gan y Trefnydd Angladdau. Bydd Uwch Swyddog y Gwasanaethau Profedigaeth yn ceisio trefnu i'r gwaith ychwanegol hwn gael ei wneud er mwyn lleihau'r gofid i'r rhai mewn profedigaeth.
- 3) Canslo claddedigaeth, ar ôl i Swyddfa'r Gwasanaethau Profedigaeth dderbyn cadarnhad ysgrifenedig neu ffacs sy'n achosi gwaith gweinyddol / gwaith gweithredol ychwanegol gan y cyngor.
- 4) Eirch Mawr lle mae gosod yr arch i'r bedd yn arwain yn uniongyrchol at golli lle claddu o ofod bedd cyfagos
- 5) Angladdau y gofynnir amdanynt ac y cytunwyd arnynt y tu allan i

oriau claddu, bydd y costau goramser perthnasol yn berthnasol

Hysbysir y trefnydd angladdau o'r amgylchiadau sydd wedi arwain at y tâl ychwanegol hwn wrth wneud cais neu ddiwygiad a phan fydd amser yn caniatáu, bydd hyn yn cael ei gadarnhau'n ysgrifenedig cyn y gladdedigaeth.

9.0 MEINCIAU COFFA

9.1 Ni chaniateir meinciau coffa ym mynwentydd Cyngor Sir y Fflint ac eithrio'r rhai a ddarperir gan y Cyngor. Ni chaniateir i unrhyw un ddarparu ei fainc ei hun. I gael gwybodaeth am yr ystod o feinciau sydd ar gael, cysylltwch â swyddfa'r Gwasanaethau Profedigaeth. Bydd y meinciau a gyflenwir yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ar gyfer addasrwydd, ansawdd ac ati, yn unol â'r Rheoliadau Mynwentydd hyn.

9.2 Dim ond mewn lleoliadau a bennwyd ymlaen llaw a ddewisir gan feinciau coffa swyddfa'r Gwasanaethau Profedigaeth, a allai fod yn agored i newid. Bydd meinciau coffa ym Mynwentydd Kelsterton a Maes-glas Rhif 2, ac unrhyw Fynwent a fydd yn cael ei sefydlu gan Gyngor Sir y Fflint yn y dyfodol, ond yn cael eu caniatáu yn y lleoliadau hynny a bennwyd ymlaen llaw gan Gyngor Sir y Fflint. I gael gwybodaeth bellach am y lleoliadau hyn, cysylltwch ag adran y Gwasanaethau Profedigaeth.

9.3 Rhaid i unrhyw un sy'n prynu Mainc Goffa gan y Cyngor dderbyn cyfrifoldeb llawn am gynnal a chadw'r fainc ac os nad yw mainc, ym marn y Rheolwr Gwasanaethau Profedigaeth, wedi'i chynnal yn ddigonol neu'n dangos arwyddion o ddifrod neu esgeulustod, caiff ei symud a chael gwared arni.

Rhaid i Feinciau Coffa aros yn eu lliw gwreiddiol, neu mor agos â phosibl at hynny. Ar feinciau coffa pren, dim ond staeniau pren addas y dylid eu defnyddio wrth eu cynnal. Bydd unrhyw Fainc Goffa a gynhelir mewn lliw amgen yn cael ei symud ar unwaith.

9.4 Ni fydd y Cyngor yn gyfrifol am unrhyw achos o ladrad neu ddifrod i fainc oni achoswyd hynny gan weithred neu ddiffyg ei gyflogeion.

9.5 Bydd meinciau yn cael eu gosod ar y ddealltwriaeth eu bod yn gyfleuster y gall unrhyw ymwelydd i'r fynwent ei ddefnyddio ac nad ydynt at ddefnydd y pwrcaswr yn unig.

9.6 Ar wahân i'r plac neu blaciau swyddogol y gellir eu gosod ar fainc, ni ddylid gosod unrhyw fath arall o gofeb ar neu o amgylch y fainc, ac ni ddylid gwneud unrhyw waith cynnal a chadw neu wella o amgylch y fainc, heb ganiatâd y Rheolwr Gwasanaethau Profedigaeth.

10.0 TREFNU ANGLADDAU A THREFNIADAU SAFLE

10.1 Ni fydd unrhyw gladdedigaeth yn cael ei chynnal, ac ni fydd unrhyw weddillion dynol sydd wedi'u hamlosgi yn cael eu gwasgaru ac ni fydd unrhyw garreg fedd na chofeb arall yn cael ei gosod mewn mynwent ac ni fydd unrhyw arysgrif ychwanegol yn cael ei rhoi ar garreg fedd neu gofeb arall heb ganiatâd Uwch Swyddog y Gwasanaethau Profedigaeth, a bod y ffi briodol yn cael ei thalu. Mae pob angladd a gynhelir yn y mynwentydd o dan reolaeth a chyfarwyddyd Uwch Swyddog y Gwasanaethau Profedigaeth, neu ei gynrychiolydd / ei chynrychiolydd. Ni ellir dewis, cloddio nac ailagor unrhyw fedd oni wneir hynny o dan ei gyfarwyddyd / ei chyfarwyddyd. Mae'n rhaid i unrhyw weithrediadau mewn angladdau ddilyn unrhyw gyfarwyddiadau penodol a roddwyd, e.e. mewn cysylltiad â safle neu ymddygiad galarwyr, cerbydau ac yn y blaen.

Dogfennaeth

10.2 Mae'n rhaid cyflwyno unrhyw hysbysiadau am gladdedigaeth yn Swyddfa'r Gwasanaethau Profedigaeth ar y ffurflenni swyddogol a ddarparwyd gan y Cyngor. Mae'n rhaid cwblhau'r ffurflenni hyn yn gywir gan sicrhau bod yr holl fanylion gofynnol wedi'u cwblhau'n llawn.

10.3 Er mwyn sicrhau bod y fynwent yn gweithredu'n effeithlon, mae'n hollbwysig sicrhau bod y wybodaeth am hyd, lled a dyfnder yr arch yn gywir. Codir tâl ychwanegol ar Drefnwyr Angladdau am unrhyw waith a allai fod yn angenrheidiol o ganlyniad i ddarparu dimensiynau anghywir.

10.4 Bydd unrhyw orchmynion neu gyfarwyddiadau a roddir dros y ffôn yn cael eu derbyn ar risg llwyr y person sy'n rhoi gorchmynion neu gyfarwyddiadau o'r fath, ac ni fydd y Cyngor yn gyfrifol am unrhyw oedi a allai ddigwydd neu gamdealltwriaeth a allai godi ynglŷn â gorchmynion neu gyfarwyddiadau a roddir dros y ffôn, oni fyddant yn cadarnhau ar unwaith yn ysgrifenedig neu drwy ffacs yn y modd a ddarperir gan y rheolau hyn.

10.5 Mae'n rhaid i hysbysiadau ynglŷn â chladdu plant marw-anedig gael eu cyflwyno gyda Thystysgrif gan y Cofrestrydd Genedigaethau, Priodasau a Marwolaethau, neu orchymyn Crwner. Yn achos ffetysau, bydd angen Cadarnhad Meddy bod Ffetws Anhyfyw wedi'i Eni.

10.6 Cyfnod Hysbysu

Gweddillion Amlosgi (2tr 6 modfedd) = 2 Ddiwrnod Gwaith (48 Awr)

Bedd Newydd 4 troedfedd 6 modfedd neu 6 throedfedd = 2 Ddiwrnod Gwaith (48 Awr)

Ailagor Bedd 4 troedfedd 6 modfedd neu 6 throedfedd = 2 Ddiwrnod Gwaith (48 Awr)

Ailagor neu Fedd Newydd 8 troedfedd = 3 Diwrnod Gwaith (72 Awr)

Beddi Brics neu wedi'u Blocio (Pob dyfnder) = 7 Diwrnod Gwaith

Nid yw unrhyw Gyfnod Hysbysu yn cynnwys dydd Sadwrn, dydd Sul a Gwyliau Cyhoeddus neu Wyliau'r Banc.

Pan fydd y manylion, yn cynnwys amser y gladdedigaeth, a roddwyd yn cael eu newid yn ystod y cyfnod hysbysu, bydd yr Awdurdod yn ymdrechu i ganiatáu i'r gladdedigaeth barhau os bydd hynny'n bosibl. Os bydd Uwch Swyddog y Gwasanaethau Profedigaeth o'r farn bod y manylion anghywir a ddarparwyd wedi amharu ar y gwaith o gynllunio claddedigaethau neu waith cyflogeion a / neu wedi achosi gwaith gweinyddol neu waith arall ychwanegol, codir tâl ychwanegol. Ni fydd y ddarpariaeth hon yn berthnasol pan fydd rheswm swyddogol dros darfu ar y weithdrefn arferol, e.e. gan yr Heddlu, y Crwner neu'r Cofrestrydd yn ystod y cyfnod hysbysu. Fodd bynnag, ni fydd yr Awdurdod yn gyfrifol am unrhyw anghyfleustra neu golled a achosir yn sgîl aildrefnu claddedigaeth a achoswyd gan wybodaeth anghywir a ddarparwyd ar y ffurflen Hysbysiad o Gladdedigaeth am ba bynnag reswm y gwneir hynny.

Gellir llacio'r rheolau hyn neu eu newid yn achos marwolaeth neu farwolaethau gormodol oherwydd digwyddiad pandemig neu farwolaeth dorfol.

- 10.7** Dylid talu pob ffi a thaliadau sy'n gysylltiedig â chladdedigaethau ac sy'n daladwy i'r Cyngor ar yr adeg pan roddir hysbysiadau o'r fath, oni fydd cytundeb ysgrifenedig yn bodoli gyda'r Cyngor, ac y dylid cynhyrchu'r dderbynneb am ffioedd a thaliadau o'r fath ar adeg y gladdedigaeth. Cedwir tabl o ffioedd o'r fath a bydd yn cael ei arddangos yn Swyddfa'r Gwasanaethau Profedigaeth a bydd yn cael ei arddangos ym mhob Mynwent pan fydd hynny'n bosibl. Bydd y rhestr hon hefyd ar gael ar gais gan Swyddfa'r Gwasanaethau Profedigaeth. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i addasu'r rhestr neu'r ffioedd fel y gwêl orau heb orfod rhoi unrhyw rybudd ymlaen llaw.
- 10.8** Mae'n rhaid cyflwyno tystysgrif cofrestru marwolaeth neu orchymyn crwner i Swyddfa'r Gwasanaethau Profedigaeth cyn y gladdedigaeth. Gallai methiant i gyflwyno tystysgrif o'r fath yn unol â'r Cyfnodau Hysbysu a nodir yn 10.6 arwain at oedi'r gladdedigaeth nes y bydd y dystysgrif wedi'i derbyn. Ni fydd yr Awdurdod yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled neu ddifrod sy'n cael ei achosi o ganlyniad i ohirio unrhyw gladdedigaethau am resymau o'r fath.
- 10.9** Yn amodol ar gydymffurfiaeth â gofynion eraill y rheolau hyn, nid oes angen unrhyw awdurdod ar gyfer claddu mewn unrhyw fedd neu gladdgell sy'n eiddo i Berchennog Cofrestredig y Bedd.

Hawliau Claddu Neilltuedig

- 10.10** Ni ddylid agor unrhyw fedd neu gladdgell pan fydd Hawliau Claddu Neilltuedig wedi'u pwrcasu, oni fydd gweithred ganiatáu yn cael ei chyflwyno yn ogystal â chaniatâd ysgrifenedig y perchennog os bydd angen. Os na fydd y weithred ar gael, gall y Cyngor ofyn am brawf

perchenogaeth, y gallant ofyn amdano'n rhesymol, gyda'r holl waith papur yn cael ei gwblhau gan y person sy'n honni mai hwy yw'r perchennog neu ysgutorion y perchennog sydd wedi marw. Ni fydd y Cyngor yn atebol os bydd bedd neu gladdgell yn cael ei hagar mewn camgymeriad.

- 10.11** Ar ôl derbyn yr Hawl Claddu Neilltuedig ar gyfer bedd sydd wedi'i bwrcasu, bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi gweithred i'r person sydd wedi prynu'r Hawl Claddu Neilltuedig neu'r prynwyr ar ran y perchennog, a bydd unrhyw berson yn cael ei gofrestru yn y Gofrestr Beddi sydd wedi'u Pwrcasu fel perchennog y bedd. Mae'r dystysgrif bedd, ar ôl ei phwrcasu, yn rhoi hawliau neilltuedig i gladdu mewn bedd am gyfnod o 100 mlynedd, gydag uchafswm o ddwy gladdedigaeth fesul bedd (caniateir tair claddedigaeth mewn rhai mynwentydd), yn amodol ar gyflwr y tir. Os na fydd yr Awdurdod yn gallu cloddio i'r dyfnder llawn oherwydd cyflwr y tir ac yn y blaen, gwneir cofnod o hyn yn y Gofrestr Claddu, a neu System Rheoli Claddu, a bydd prynwr y bedd yn cael ei hysbysu.
- 10.12** Ar ôl marwolaeth perchennog cofrestredig y bedd neu'r gladdgell, rhaid i'r person sy'n hawlio'r teitl i'r Hawl Claddu Unigryw ddangos tystiolaeth foddhaol o deitl a chwblhau unrhyw ddogfennaeth berthnasol yn unol â chais y Rheolwr Gwasanaethau Profedigaeth cyn agor unrhyw fedd neu gladdgell, neu gofeb wedi'i gosod ar y bedd, ac eithrio yn unol â Rheol 10.10.
- 10.13** Gall perchennog Hawl Claddu Neilltuedig sy'n dymuno trosglwyddo ei hawl wneud hynny drwy drosglwyddiad ysgrifenedig mewn ffurflen i'w chymeradwyo gan y Cyngor. Hyd nes y bydd trosglwyddiad o'r fath wedi'i gyflwyno a'i gofrestru gan y Cyngor, ni fydd gan yr aseini'r hawl i arfer unrhyw hawliau o dan y weithred. Fodd bynnag, pan fydd preswylwr yn Sir y Fflint yn dymuno trosglwyddo ei hawl i berson nad yw'n preswylwr yn y Sir, yna codir ffi ychwanegol yn seiliedig ar y gwahaniaeth rhwng y ffioedd ar gyfer pobl sy'n preswylwr a phobl nad ydynt yn preswylwr sy'n berthnasol ar y pryd, ond wedi'u lleihau yn unol â nifer blynyddoedd cyfan y brydles sydd wedi dod i ben.
- 10.14** Nid yw'r tâl am gladdu mewn bedd cyhoeddus yn cynnwys unrhyw hawl neu faint ac eithrio'r hawl i gladdu mewn bedd a ddewiswyd gan y Cyngor.
- 10.15** Mae'r ffioedd a godir gan y Cyngor yn cynnwys popeth sy'n gysylltiedig â'r eitemau penodol ac ni chaniateir i unrhyw un o weithwyr y Cyngor dderbyn unrhyw arian rhodd o gwbl.
- 10.16** Bydd pwrcaswr yr Hawliau Claddu Neilltuedig yn derbyn yr un Weithred.

- 10.17** Ni fydd gan y perchennog y pŵer i drosglwyddo Hawl Claddu Neilltuedig mewn unrhyw fedd heb ganiatâd y Cyngor ac eithrio drwy Ewyllys.
- 10.18** Mae'n rhaid i unrhyw berson sy'n derbyn Gweithred drwy Ewyllys neu Farwolaeth heb Ewyllys hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig o'r newid i'r berchenogaeth ac mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i gynnal ymchwiliadau y bydd yn credu sydd eu hangen.
- 10.19** Pan fydd hawl claddu neilltuedig yn cael ei ganiatáu ar gyfer bedd newydd, mae'n rhaid sicrhau bod enw'r perchennog cofrestredig arfaethedig wedi'i gofnodi'n gywir ar y Weithred.
- 10.20** Bydd dewis gofod bedd yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor ac yn gyson â'u cynllun cyffredinol. Y Rheolwr Gwasanaethau Profedigaeth fydd yn penderfynu ar leoliad beddau cyhoeddus. Nid yw'r Awdurdod yn gwarantu union leoliad unrhyw ofod bedd yn ei Fynwentydd, ac mae'n cadw'r hawl i newid cynllun a lleoliad beddau nas defnyddiwyd fel y gwêl yn dda, er mwyn gwneud y mwyaf o'r lleoedd claddu sydd ar gael yn ei Fynwentydd.

Dewis Bedd a Chloddio Bedd

- 10.20** Bydd y broses o ddewis ardal ar gyfer bedd yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Cyngor ac yn gyson â'u cynllun cyffredinol. Uwch Swyddog y Gwasanaethau Profedigaeth fydd yn gyfrifol am benderfynu ar safle beddi cyhoeddus.
- 10.21** Bydd pob bedd yn cael eu cloddio o dan reolaeth a rheoliadau Uwch Swyddog y Gwasanaethau Profedigaeth.
- 10.22** Ni fydd unrhyw gorff yn cael ei gladdu mewn arch oni fydd yr arch wedi'i gwahanu'n ddigonol oddi wrth arch arall sydd wedi'i chladdu ar achlysur blaenorol drwy haen o ddaear nad yw'n llai na chwe modfedd o drwch.
- 10.23** Pan fydd unrhyw fedd yn cael ei ailagor at ddibenion gwneud claddedigaeth arall yn y bedd, ni ddylai unrhyw berson darfu ar unrhyw weddillion dynol sydd wedi'u claddu yn y bedd na symud unrhyw bridd o'r bedd.
- 10.24** Ni ddylid claddu unrhyw gorff mewn dull sy'n golygu bod unrhyw ddarn o'r arch yn llai na thair troedfedd o dan lefel unrhyw dir sy'n ffinio â'r bedd. Gall yr awdurdod claddu ganiatáu, pan fyddant yn ystyried bod y pridd yn addas, i arch o ddeunyddiau darfodus gael eu gosod mewn bedd nad yw'n llai na dwy droedfedd islaw lefel unrhyw dir sy'n ffinio â'r bedd. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i osod slab concriid dros y bedd yn dilyn y gladdedigaeth olaf, os bydd pryder ynglŷn â dyfnder y pridd dros y gladdedigaeth olaf.
- 10.25** Ni ellir symud unrhyw arch, casged na chynhwysydd arall sy'n cynnwys gweddillion dynol ar ôl claddedigaeth ac eithrio os rhoddir caniatâd ysgrifenedig gan Swyddfa'r Gwasanaethau Profedigaeth, a fydd ond yn cael ei ganiatáu ar ôl derbyn caniatâd y Weinyddiaeth Gyfiawnder.
- 10.26** Os na ddefnyddir arch ar gyfer claddu, mae'n rhaid gorchuddio'r corff mewn amwisg (mae'n rhaid lapio'r corff yn llwyr gyda'r amwisg). Bydd angen gosod bwrdd pren o dan y corff er mwyn sicrhau cadernid ac ar gyfer trin y corff. Efallai y bydd angen 'haen allanol' os bydd y corff sydd wedi'i lapio yn weladwy i'r cyhoedd.

Hawl i Darfu

- 10.26** Mae'r Awdurdod yn cadw'r hawl i symud unrhyw gofeb, carreg ymylol neu garreg droed o fedd cyfagos pan ystyrir bod angen eu symud er mwyn cyflawni gwaith claddu mewn unrhyw fedd. Bydd yr Awdurdod sy'n symud unrhyw gofeb, carreg ymylol neu garreg droed sy'n cael ei symud, yn gwneud iawn am unrhyw ddifrod a wneir wrth eu symud, a bydd yn hysbysu'r perchennog/perchenogion pan fydd hynny'n bosibl.

Beddi Brics / Wedi'u Blocio

- 10.27** Bydd pob bedd neu gladdgell frics / wedi'i blocio yn cael ei hadeiladu o ddeunyddiau addas. O fewn 24 awr i unrhyw gladdedigaeth mewn

bedd neu gladdgell frics / wedi'i blocio, bydd yr arch yn cael ei:-

- (a) gosod mewn concrïd, a'i gorchuddio â haen o goncrïd nad yw'n llai na 6 modfedd o drwch.

NEU

- (b) hamgáu mewn cell ar wahân neu adran o frics/bloc, llechi, cerrig llorio neu slabiau concrïd sydd wedi'u castio ymlaen llaw o gymysgedd 1:2:4, ac ni ddylent fod yn llai na 2 fodfedd o drwch, mewn dull, i'r graddau y bydd yn ymarferol, sy'n rhwystro unrhyw nwyon atgas rhag dianc o'r gell neu'r adran.

11.0 GWASANAETHAU ANGLADD / CLADDU

- 11.1** Mae'n rhaid i bob angladd / claddedigaeth gael eu cynnal rhwng 9.00 a 3.00 o'r gloch y prynhawn o ddydd Llun i ddydd Iau a rhwng 9.00 a 2.00 o'r gloch y prynhawn ar ddydd Gwener ac, mewn gwasanaethau eithriadol, rhwng 9.00 a 12.00 ar ddydd Sadwrn pan fydd ffi ychwanegol i'w thalu, oni wneir hyn drwy drefniant gyda'r Cyngor. Ni chaniateir i angladdau gael eu cynnal ar ddydd Sul nac ar Wyliau Cyhoeddus, ac eithrio mewn achos brys. Mewn achosion o'r fath, mae'n rhaid cyflwyno tystysgrif feddygol sy'n datgan bod angen claddedigaeth ar unwaith ar sail iechyd cyhoeddus.
- 11.2** Yr amser a nodir ar gyfer angladd yw'r amser y dylai'r orymdaith gyrraedd y fynwent a dylid cadw'n gaeth at yr amseroedd hyn. Os bydd angladd yn cyrraedd yn hwyr, mae'n rhaid i'r angladd aros i Uwch Swyddog y Gwasanaethau Profedigaeth, neu eu cynrychiolydd, yn datgan y bydd yn gyfleus iddynt barhau. Pan roddir hysbysiad o gladdedigaeth, bydd unrhyw newidiadau i'r trefniadau ond yn cael eu caniatáu yn ôl disgrisiwn y Cyngor ynglŷn ag unrhyw waith a allai fod wedi'i wneud eisoes ac unrhyw gostau eraill a allai fod wedi'u hachosi.
- 11.3** Dim ond un angladd a ganiateir yn y fynwent ar unrhyw un amser, ac eithrio gyda chaniatâd y partïon dan sylw. Dylid caniatáu o leiaf 1½ awr rhwng pob angladd er mwyn caniatáu ar gyfer cyrhaeddiad hwyr partïon yr angladd ac er mwyn ôl-lenwi'r bedd.
- 11.4** Os bydd arogleuon neu hylifau annymunol yn deillio o unrhyw arch a gyflwynir i'w chladdu, gall Swyddog y Gwasanaethau Profedigaeth neu gynrychiolydd orchymyn na ddylid dod â'r arch i mewn i'r Fynwent.
- 11.5** Mae'n rhaid i bersonau sy'n gyfrifol am angladdau milwrol neu angladdau mawr eraill wneud trefniadau ymlaen llaw gydag Uwch Swyddog y Gwasanaethau Profedigaeth.
- 11.6** Ni chaniateir i unrhyw fand chwarae na cherddoriaeth gael ei chwarae ac ni chaniateir arddangosfa ychwanegol o unrhyw fath oni fyddant wedi sicrhau caniatâd Uwch Swyddog y Gwasanaethau Profedigaeth ymlaen llaw.
- 11.7** Nid yw'r Cyngor yn gyfrifol am hysbysu Gweinidog yr Efengyl i fynychu angladd.

12.0 RHEOLAU SY'N GYSYLLTIEDIG AG ARDALOEDD GWEDDILLION WEDI'U HAMLOSGI

- 12.1.** Yn amodol ar y wybodaeth a gyflwynir isod, yn unol â disgresiwn Uwch Swyddog y Gwasanaethau Profedigaeth, gall yr Awdurdod ganiatáu i weddillion wedi'u hamlosgi gael eu claddu mewn bedd sydd wedi'i brynu yn y fynwent, neu mewn ardal amlosgi, ond mae'n rhaid i'r gweddillion gael eu claddu ac ni chaniateir iddynt gael eu gwasgaru.
- 12.2** Mewn achos o gladdu gweddillion wedi'u hamlosgi, bydd angen tystysgrif at ddibenion claddu, a gyhoeddir gan yr Awdurdod Amlosgi.
- 12.3** Mae'n rhaid claddu gweddillion wedi'u hamlosgi mewn lleiniau unigol. Bydd y rhain yn cael eu dynodi gyda cherrig coffa syml, lletem neu garreg fedd sy'n gydnaws â'r patrwm presennol mewn mynwentydd unigol. Ni chaniateir mwy na dwy gladdedigaeth mewn Llain Gweddillion wedi'u Hamlosgi.
- 12.4** Bydd ardaloedd sydd wedi'u neilltuo gan yr Awdurdod ar gyfer claddu gweddillion wedi'u hamlosgi yn cael eu cynnal fel ardaloedd lawntiog gan yr Awdurdod.
- 12.5** Bydd Rheoliadau'r Awdurdod ynglŷn â derbyn, codi, cynnal a chadw, deunyddiau ac arysgrifau cofebau a cherrig beddi y cyfeirir atynt yn Adran 7 yn berthnasol i'r cofebau i'w gosod ar Leiniau Gweddillion wedi'u Hamlosgi.
- 12.6** Dylai casgedau gydymffurfio ag argymhellion y Sefydliad Rheoli Mynwentydd ac Amlosgfeydd (ICCM), sydd ar hyn o bryd yn amcangyfrif na ddylai cyfaint ciwb ag ochr o 6", h.y. cynhwysydd (wrn / casged) fod â dimensiynau mewnol sy'n llai na 200 modfedd giwbig (3277 cm ciwbig). Dylid cyfeirio wrnau neu gasgedi sy'n fwy na 400 modfedd giwbig (6555 cm ciwbig) i Uwch Swyddog y Gwasanaethau Profedigaeth cyn y gladdedigaeth. Dylai pob casged gael eu labelu'n ddiogel.

13.0 RHEOLAU SY’N GYSYLLTIEDIG Â CHLADDU MEWN COETIROEDD

13.1 Er mwyn bodloni anghenion y rhai sy’n dymuno cael angladd sy’n fwy ystyriol o’r amgylchedd, mae Cyngor Sir y Fflint yn cynnig ardal Claddu mewn Coetir neu ardal Gladdu Naturiol ar gyfer hyn.

13.2 Er mwyn sicrhau bod y Gladdedigaeth Goetir mor ecolegol â phosibl, dim ond eirch sy’n pydru’n naturiol megis eirch o Wial, Cardbord Rhychiog ac yn blaen a ganiateir yn yr ardal hon. Bydd hyn hefyd yn berthnasol i gasgedi Gweddillion wedi’u Hamlosgi y gellir eu claddu hefyd yn yr ardal hon.

13.3 Bydd y gladdfa coetir yn cael ei rheoli i wella a chynnal bywyd gwyllt a’r amgylchedd naturiol. Bydd hyn yn golygu dim ond un neu ddau o doriadau glaswellt y flwyddyn. Rhaid gwerthfawrogi felly na fydd ymddangosiad taclus a thaclus arferol Mynwent yn berthnasol i’r ardal gladdu hon. Ni fydd unrhyw gemegau garddwriaethol yn cael eu defnyddio na’u caniatáu yn yr ardal hon, oni bai bod brigiad o chwyn niweidiol neu wenwynig yn gofyn am driniaeth “sbot”

13.4 Ni fydd yn bosibl prynu beddi ymlaen llaw yn yr ardal hon. Dim ond ar adeg y gladdedigaeth gyntaf y gellir cadw bedd cyfagos. Bydd beddi ond yn cael eu cloddio i ddyfnder o 4 troedfedd 6 modfedd, a bydd beddi ar gyfer dau o bobl ar ffurf beddi “ochr yn ochr”.

Bydd pobl sydd wedi marw a oedd â chrefyddau a chredoau amrywiol yn cael eu claddu yn yr un ardal.

13.5 Mae Beddi Coetir yn cynnig dull claddu naturiol lle bydd y beddi yn parhau am byth mewn coetir naturiol “wedi’i gynllunio”. Mae’r ardaloedd claddu wedi’u cynllunio’n ofalus a dylid cofnodi beddi yn gywir er mwyn gallu eu lleoli. Rhoddir copi o’r cynllun hwn i berthnasau.

13.6 O ystyried yr amgylchedd naturiol, ni chaniateir unrhyw gofebau neu ymylon o dan unrhyw amgylchiadau yn yr ardal hon.

Caniateir blodau ar adeg y gladdedigaeth, ac ar ôl hynny dim ond blodau wedi’u torri, heb unrhyw fath o ddeunydd lapio, y gellir eu rhoi ar y bedd. Mae’r Cyngor yn cadw’r hawl i symud unrhyw deyrnged flodau nad yw’n cydymffurfio â’r rheolau hyn ar unrhyw adeg, yn ddirybudd.

Bydd beddau’n cael eu marcio gan yr Awdurdod gyda Microsglodyn â rhif unigryw a roddir ym mhen pob bedd tua 6 modfedd o dan yr wyneb.

13.7 Cyhoeddir Gweithred yn dynodi Hawliau Claddu Neilltuedig ar gyfer pob Gladdedigaeth Goetir, ond yn wahanol i feddi traddodiadol, ni fydd hyd cyfnod yr hawl neilltuedig yn berthnasol oherwydd bydd y bedd yn parhau yn ddigyffwrdd, am byth, fel rhan o’r coetir naturiol.

14.0 ANGHYDFODAU YNGLŶN Â RHEOL MYNWENT NEU'R DEHONGLIAD O REOL MYNWENT

14.1 Os bydd gan ddefnyddiwr neu ymwelydd i fynwent bryder penodol a pherthnasol ynglŷn ag unrhyw un o reolau'r fynwent neu'r dehongliad o unrhyw un o reolau'r fynwent dylent, i ddechrau, geisio datrys eu pryder drwy godi'r mater gydag Uwch Swyddog y Gwasanaethau Profedigaeth, ac yna gydag Arweinydd Tîm Diogelu'r Amgylchedd.

14.2 Os na ellir datrys pryder drwy siarad gydag Uwch Swyddog y Gwasanaethau Profedigaeth o dan 14.1 uchod, dylai'r defnyddiwr neu'r ymwelydd ofyn am wybodaeth ar Bolisi Cwynion Corfforaethol y Cyngor.

15.0 ADDASIADAU A DIWYGIADAU I'R RHEOLAU MYNVENTYDD

- 15.1** Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i wneud unrhyw addasiadau, ychwanegiadau, neu ddiwygiadau o bryd i'w gilydd, i reolau'r Fynwent.
- 15.2** Gan roi ystyriaeth i 15.1 uchod, ni fydd unrhyw un o swyddogion nac aelodau'r Cyngor yn caniatáu unrhyw gonsesiwn sy'n ildio unrhyw rai o reolau'r fynwent.
- 15.3** Bernir bod unrhyw berson sydd wedi derbyn gweithred hawl claddu neilltuedig gan y Cyngor mewn bedd yn y Fynwent, neu olynedd mewn teitl person â hawl o'r fath, wedi cytuno i fod yn ddarostyngedig i'r rheolau hyn ac unrhyw ddiwygiadau pellach i'r rheolau hyn, ac i unrhyw ddiwygiadau a wneir iddynt yn y dyfodol, ac i unrhyw reolau ychwanegol neu reolau wedi'u hamnewid y gellir eu gwneud yn dilyn hyn.
- 15.4** Bernir bod unrhyw berson ag awdurdod i wneud gwaith ar ran y person y rhoddwyd hawl claddu neilltuedig iddynt gan y Cyngor mewn bedd mewn mynwent, neu olynedd mewn teitl person â hawl o'r fath, wedi cytuni o fod yn ddarostyngedig i'r rheolau hyn, ac i unrhyw reolau ychwanegol neu reolau wedi'u hamnewid y gellir eu gwneud yn dilyn hyn.
- 15.5** Bydd unrhyw indemniad neu ymwadiad a wneir yn cael eu llunio er budd y Cyngor, ei aelodau a'i swyddogion, gweision ac asiantwyr mewn contract a chamwedd.
- 15.6** Bydd pob Rheoliad a Rheol Mynwentydd a wneir gan y Cyngor cyn i'r Rheolau hyn gael eu mabwysiadu yn cael eu diddymu drwy hyn.

16.0 TROSEDDAU MEWN MYNWENTYDD

16.1 Ni ddylai unrhyw berson:

- a) creu unrhyw aflonyddwch yn fwriadol mewn mynwent;
- b) achosi unrhyw fath o boendod mewn mynwent;
- c) ymyrryd yn fwriadol ag unrhyw gladdedigaeth sy'n cael ei chynnal mewn mynwent;
- ch) ymyrryd yn fwriadol ag unrhyw fedd, bedd muriog neu gladdgell, unrhyw feddfaen neu gofeb arall, nac unrhyw flodau neu blanhigion neu fater o'r fath; na
- d) chwarae unrhyw gêm neu chwaraeon mewn mynwent.

16.2 Ni chaniateir i unrhyw berson ar wahân i swyddog neu was yr awdurdod claddu neu berson sydd wedi'i awdurdodi gan neu ar ran yr awdurdod claddu, fynd i mewn i fynwent neu aros mewn mynwent ar unrhyw amser pan fydd wedi cau i'r cyhoedd.

16.3 Bydd unrhyw berson sy'n torri'r rheolau blaenorol yn atebol i dderbyn collfarn ddiannod o ddirwy nad yw'n fwy na Lefel 3 ar y raddfa safonol (gweler Erthygl 18 Gorchymyn Mynwentydd Awdurdodau Lleol 1977).

16.4 Mae'n drosedd o dan Erthygl 19 Gorchymyn Mynwentydd Awdurdodau Lleol 1977 i dorri rheolau 10.1 a 10.21 i 10.23. Ar gollfarn ddiannod, bydd unrhyw un sy'n torri unrhyw ddarpariaeth yn y rheolau hyn yn atebol i ddirwy nad yw'n fwy na Lefel 3 ar y raddfa safonol.

Canllawiau Maint Cofebau Cyngor Sir y Fflint**Atodiad 1**

Mynwent	Lleiniau Claddu Llawn			Lleiniau Llwch	
	Cofeb Unigol	Cofeb Ddwbl	Ymylon	Llechen	Cerrig Beddi
Bagillt	3tr 6mod x 2tr 9mod (1.07m x 0.84m)	3tr 6mod x 7tr (1.07m x 2.13m)	Na	18mod 12mod (457mm x 305mm)	Na
Bwcle	3tr 6mod x 2tr 9mod (1.07m x 0.84m)	3tr 6mod x 7tr (1.07m x 2.13m)	le	18mod 12mod (457mm x 305mm)	2tr 6mpd x 1tr 9mod (0.76m x 0.54m)
Bryn Road, Cei Conna	3tr 6mod x 2tr 9mod (1.07m x 0.84m)	3tr 6mod x 7tr (1.07m x 2.13m)	le	18mod 12mod (457mm x 305mm)	2tr 6mod x 1tr 9mod (0.76m x 0.54m)
London Road, Y Fflint	3tr 6mod x 2tr 9mod (1.07m x 0.84m)	3tr 6mod x 7tr (1.07m x 2.13m)	Na	18mod 12mod (457mm x 305mm)	Na
Maes Glas Rhif 1 a 2	3tr 6mod x 2tr 9mod (1.07m x 0.84m)	3tr 6mod x 7tr (1.07m x 2.13m)	Na	18mod 12mod (457mm x 305mm)	Na
Penarlâg Rhif 1 a 2	3tr 6mod x 2tr 9mod (1.07m x 0.84m)	3tr 6mod x 7tr (1.07m x 2.13m)	Na	18mod 12mod (457mm x 305mm)	2tr 6mod x 1tr 9mod (0.76m x 0.54m)
Treffynnon	3tr 6mod x 2tr 9mod (1.07m x 0.84m)	3tr 6mod x 7tr (1.07m x 2.13m)	le	18mod 12mod (457mm x 305mm)	Na
Bryn y Grog, Yr Hob	3tr 6mod x 2tr 9mod (1.07m x 0.84m)	3tr 6mod x 7tr (1.07m x 2.13m)	Na	18mod 12mod (457mm x 305mm)	2tr 6mod x 1tr 9mod (0.76m x 0.54m)

Mynwent	Lleiniau Claddu Llawn			Lleiniau Llwch	
	Cofeb Unigol	Cofeb Ddwbl	Ymylon	Llechen	Cerrig Beddi
Rhewl	3tr 6mod x 2tr 9mod (1.07m x 0.84m)	3tr 6mod x 7tr (1.07m x 2.13m)	le	18mod 12mod (457mm x 305mm)	2tr 6mod x 1tr 9mod (0.76m x 0.54m)
Treuddyn	3tr 6mod x 2tr 9mod (1.07m x 0.84m)	3tr 6mod x 7tr (1.07m x 2.13m)	Na	18mod 12mod (457mm x 305mm)	3tr 6mod x 2tr 9mod (1.07m x 0.84m)
Kelsterton	3tr 6mod x 2tr 9mod (1.07m x 0.84m)	3tr 6mod x 7tr (1.07m x 2.13m)	Na	18mod 12mod (457mm x 305mm)	1tr 9mod x 1tr 9mod (533mm x 533mm)

***Ni ddylai Croesau Pren fod yn uwch na 3tr (0.91m) mewn uchder uwchlaw lefel y ddaear a 2tr 9mod (0.84m) o led
Noder: Y meintiau a ddyfynnir yw'r uchafswm a ganiateir uwchlaw lefel y ddaear ac mae'n cynnwys sylfeini gloyw.
Bydd Cyngor Sir y Fflint yn caniatáu goddefiant o 15mm ar uchder cofebau.***